CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

**Castell Brychan, ABERYSTWYTH, Ceredigion SY23 2JB**
T 01970 624151 F 01970 625385 e castellbrychan@llyfrau.cymru
Rhyngrwyd / Internet llyfrau.cymru gwales.com ffolio.cymru

Prif Weithredwr/Chief Executive: Helgard Krause

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd: | Swyddog Cydlynu Prosiectau Hyrwyddo Darllen |
| Adran: | Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen / Adran Cyfathrebu, Marchnata a Dylunio |
| Lleoliad: | Hyblyg – yn ddelfrydol, gweithio o Gastell Brychan hyd at unwaith y mis. |
| Band Cyflog: | Graddfa 4 (pwynt 14–20) |
| Cyflog: | £28,598 – £32,597 *pro rata* |
| Cytundeb: | Cyfnod penodol hyd 31 Mawrth 2027 |
| Dyddiad cychwyn: | Ionawr 2026 (yn ddelfrydol) |
| Oriau gwaith: | 22.5 awr yr wythnos (dros 3 neu 4 diwrnod) – i'w drafod gyda'r ymgeisydd llwyddiannus |
| Nifer o ddiwrnodau o wyliau: | Dechrau ar 28 diwrnod o wyliau (*pro rata*) |
| Yn adrodd i: | Pennaeth yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen |
| Pwrpas cyffredinol y swydd: | Dwli ar lyfrau plant? Chwilio am swydd sy'n llawn amrywiaeth a chreadigrwydd?<br><br>Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a chyfeillgar, gyda sgiliau rhyngbersonol o'r radd flaenaf, i ymuno â'r Adran Llyfrau Plant ac i weithio'n rhannol gyda'r Adran Gyfathrebu, Marchnata a Dylunio hefyd. Bydd y Swyddog yn gyfrifol am gydlynu prosiect Sialens Ddarllen yr Haf a'r Gaeaf a chreu a datblygu cynnwys cyfathrebu o bob math i hyrwyddo ein rhaglenni darllen er pleser ymhlith teuluoedd, plant a phobl ifanc. Mae'r swydd hon yn galw am unigolyn trefnus, creadigol a gweithgar sy'n mwynhau gweithio'n agos ar draws adrannau amrywiol. |

## CEFNDIR

Elusen genedlaethol sy'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi ac yn datblygu darllen yng Nghymru yw'r Cyngor Llyfrau. Rydym yn hyrwyddo llythrennedd a darllen er pleser drwy ystod o ymgyrchoedd, gweithgareddau a digwyddiadau ar hyd a lled Cymru, gan weithio'n

aml mewn partneriaeth ag ysgolion, llyfrgelloedd a sefydliadau llenyddol eraill. Sefydlwyd y Cyngor yn Aberystwyth yn 1961 ac rydym yn gweithio gyda chyhoeddwyr i feithrin talent a chynnwys newydd yn Gymraeg a Saesneg, yn ogystal â chynnig gwasanaethau arbenigol megis golygu, dylunio, marchnata a dosbarthu. Rydym hefyd yn gweinyddu grantiau i gyhoeddwyr a llyfrwerthwyr annibynnol. Daw ein cyllid yn rhannol gan Lywodraeth Cymru drwy Gymru Greadigol, ac yn rhannol o weithgareddau masnachol a gwasanaeth cyfanwerthu llyfrau ein Canolfan Ddosbarthu.

Mae'r Cyngor yn darparu cynllun pensiwn y bydd modd i'r sawl a benodir gyfrannu ato. Mae'r Cyngor Llyfrau yn aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed sy'n Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Gweithredir system oriau gwaith hyblyg ar gyfer y swydd hon.

## YR ADRAN

Lleolir y swydd hon yn yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen, sy'n gyfrifol am gydlynu amrywiaeth o brosiectau hyrwyddo darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd yr elfen o'r gwaith cyfathrebu sydd ynghlwm â'r swydd yn dod o dan adain yr Adran Gyfathrebu, Marchnata a Dylunio.

Mae rhaglen waith yr Adran yn amrywiol, ond ei phrif nod yw hyrwyddo darllen er pleser yn Gymraeg a Saesneg gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddarparu cyfleoedd i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Mae'r Adran yn cydweithio ag amrywiaeth eang o bartneriaid er mwyn cyrraedd y nod yma, gan gynnwys cyhoeddi, llyfrwerthu, addysg, llyfrgelloedd a Llywodraeth Cymru yn ogystal â chyrff eraill megis Llenyddiaeth Cymru, yr Urdd, S4C, CILIP Cymru Wales a Radio Cymru.

Mae'r prosiectau amrywiol sydd yn rhan o'r rhaglen graidd bresennol yn cynnwys:

- Cystadlaethau darllen blynyddol i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- Gwobrau Tir na n-Og
- Cyhoeddiadau megis y Blwyddlyfr Llyfrau Plant a Phobl Ifanc
- Teithiau Awdur
- Tlws Mary Vaughan Jones

Mae'r Adran yn gyfrifol am gydlynu cynlluniau hyrwyddo darllen – Athrawon Caru Darllen, Diwrnod y Llyfr a Sialens Ddarllen yr Haf yng Nghymru mewn partneriaeth â Diwrnod y Llyfr y DU a'r Reading Agency. Ariennir y cynlluniau yma gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru.

Mae'r Adran yn ymateb yn strategol ac ymarferol i brosiectau darllen er pleser ar lefel sirol a chenedlaethol ac yn cydweithio'n agos â'r Adran Datblygu Cyhoeddi ar gefnogi datblygiad y maes cyhoeddi; o ganlyniad, mae'r Adran hefyd yn arwain ar gynlluniau penodol yn rheolaidd.

Mae staff yr Adran yn adrodd i'r Is-bwyllgor Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

Bydd y Swyddog Hyrwyddo yn rhan o strwythur staffio'r Adran fel a ganlyn:

- Pennaeth rhan-amser
- Rheolwr Prosiectau Addysg rhan-amser
- Rheolwr Prosiect Athrawon Caru Darllen rhan-amser
- Rheolwr Prosiect Rhyngom rhan-amser
- Rheolwr Prosiect Llyfrau ADY rhan-amser
- Swyddog Hyrwyddo Darllen rhan-amser
- Gweinyddydd Prosiect rhan-amser.

Yn ogystal bydd yn cydweithio'n agos gyda'r Adran Gyfathrebu, Marchnata a Dylunio. Dyma strwythur yr Adran:

- Pennaeth rhan-amser
- Cynhyrchydd Cynnwys Digidol rhan-amser
- Arweinydd Maes: Dylunio
- 2 x Swyddog Dylunio rhan-amser.

## PRIF DDYLETSWYDDAU'R SWYDD

Bydd y Cydlynydd Prosiect yn cyfrannu at waith yr Adran gan gynnwys y meysydd canlynol, ond bydd angen bod yn hyblyg:

1. Gweinyddu'r cynllun Sialens Ddarllen yr Haf, cydlynu cyfieithu'r asedau a dderbynnir gan y Reading Agency i'r Gymraeg, sicrhau rhestr o lyfrau sy'n cyfateb i thema'r flwyddyn dan sylw.
2. Cydweithio gyda'r Cynhyrchydd Cynnwys Digidol i gytuno ar weithgaredd ymgyrchoedd ar gyfer prosiectau hyrwyddo darllen.
3. Creu cynnwys ar gyfer holl sianelau cyfathrebu'r Cyngor Llyfrau, i gynnwys y wefan, y cyfryngau cymdeithasol a datganiadau i'r wasg.
4. Cydweithio gyda Phenaethiaid sirol llyfrgelloedd Cymru, er mwyn sicrhau eu bod nhw'n trefnu ymweliadau awdur yn ystod y gwyliau ysgol.
5. Hwyluso trefniadau'r llyfrgelloedd gan rannu manylion perthnasol, rhannu cyllid a monitro digwyddiadau.
6. Arfarnu a gwerthuso'r prosiect, gan gasglu data ansoddol a data meintiol yn dilyn y sesiynau. Adrodd yn ôl ar ddatblygiad y prosiect i Swyddogion Llywodraeth Cymru.
7. Cydweithio â'r tîm i ddatblygu cynlluniau a delweddau i rannu gwybodaeth am ddarllen er pleser trwy gydweithio â rhanddeiliaid.
8. Cydweithio â gweddill y tîm a gyda'r Adrannau eraill wrth ddatblygu elfennau penodol o waith strategol y Cyngor.
9. Gall y swydd olygu gweithio yn achlysurol tu allan i'r oriau gwaith arferol a mynychu digwyddiadau allanol a drefnir gan y Cyngor.

## GWYBODAETH A SGILIAU AR GYFER Y SWYDD

- Y gallu i feddwl yn greadigol am ffyrdd o ddatblygu prosiectau hyrwyddo darllen.
- Gwybodaeth dda iawn am y maes llyfrau plant a chyhoeddi yng Nghymru.
- Gwybodaeth dda am y system addysg ac am ddatblygiadau ym maes hyrwyddo darllen.
- Y gallu i greu cynnwys gwreiddiol a deniadol fydd yn apelio at ystod o gynulleidfaoedd targed ar draws nifer o blatfformau.
- Sgiliau cyfrifiadurol arbennig, gan gynnwys y gallu i ddefnyddio Word ac Excel yn hyderus.
- Y gallu i reoli cynlluniau, amserlenni a chyllidebau yn gywir ac yn effeithiol dan arweiniad y Pennaeth Adran.
- Sgiliau cyfathrebu cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.
- Sgiliau iaith – gweler isod.
- Sgiliau rhyngbersonol cryf.

## IAITH GWEITHIO

1 Gwrando a Siarad:
Gallu deall pob sgwrs yn y Gymraeg a'r Saesneg sy'n ymwneud â'r gwaith. Yn rhugl wrth sgwrsio ac ateb cwestiynau yn y ddwy iaith.

2 Darllen a Deall:
Gallu deall yr holl ddeunydd Cymraeg a Saesneg sy'n ymwneud â'r gwaith.

3 Ysgrifennu:
Gallu paratoi rhan helaeth o'r deunydd sy'n gysylltiedig â'r prosiectau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda pheth cymorth gwirio.

## CYSYLLTIADAU A CHYFATHREBU

| **Mewnol** | **Natur y cyswllt** |
|---|---|
| Prif Weithredwr | Ymateb i geisiadau am wybodaeth. |
| Pennaeth yr Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen / Rheolwr llinell | Gweithio ar y cyd wrth gynllunio a datblygu'r prosiectau. |
| Cynhyrchydd Cynnwys Digidol | Gweithio ar y cyd wrth gynllunio a chreu deunydd hyrwyddo. |
| Gweinyddydd Prosiect | Gweithio ar y cyd ar y prosiect ar lefel weinyddol. |
| Pennaeth yr Adran Gyfathrebu, Marchnata a Dylunio | Gweithio ar y cyd wrth gynllunio ymgyrchoedd a chreu cynnwys. |
| Swyddog Dylunio | Cydweithio ar brosiectau'r Adran gyda'r Swyddog Dylunio ar ddatblygu elfennau gweledol y prosiectau. |
| Yr Adran Datblygu Cyhoeddi | Cydweithio ar ddatblygu elfennau penodol o'r maes trwy drafod a chynnig syniadau ar y cyd gyda gweddill y tîm.<br>Cydweithio â swyddogion y timau Dylunio a Golygyddol ar elfennau o waith y prosiectau. |
| Gweddill staff y Cyngor | Cydweithio a rhannu gwybodaeth. |

| **Allanol** | **Natur y cyswllt** |
|---|---|
| Y fasnach lyfrau | Cyfathrebu ar waith y prosiect. |
| Partneriaid Prosiect (Addysg, Llyfrgelloedd) | Cydweithio a rhannu gwybodaeth gan fynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. |
| Rhanddeiliaid eraill (Yr Urdd, Llenyddiaeth Cymru, S4C, CILIP Cymru Wales ayb) | Cydweithio a rhannu gwybodaeth gan fynychu cyfarfodydd ar ran y Cyngor. |

## CYFRIFOLDEBAU

| | |
|---|---|
| Am bobl: | Dim. |
| Am gyllideb: | Trefnu cyllideb y prosiect o ddydd i ddydd. |
| Am offer neu stoc: | Dim. |

## GWNEUD PENDERFYNIADAU / DATRYS PROBLEMAU / YMREOLAETH

Bydd Pennaeth yr Adran yn eich cynorthwyo i wneud penderfyniadau. Wrth i chi gyfarwyddo â'r swydd a dod yn fwy hyderus, byddwch yn gallu gwneud penderfyniadau er mwyn datrys anawsterau o ddydd i ddydd. Y Pennaeth Adran a'r Prif Weithredwr fydd yn gwneud y penderfyniadau mwy pellgyrhaeddol.

## MEINI PRAWF AR GYFER Y SWYDD

- Profiad o reoli prosiectau ac adrodd ar gynnydd.
- Profiad o reoli cynlluniau ac amserlenni yn gywir ac yn effeithiol.
- Profiad o weithio ym maes cyfathrebu.
- Profiad o greu deunydd hyrwyddo dwyieithog.
- Sgiliau cyfrifiadurol, yn gynnwys y gallu i ddefnyddio Word ac Excel yn hyderus.
- Sgiliau cyfathrebu cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Profiad o weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.
- Cywirdeb ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## CEISIADAU

**Ar gyfer gwneud cais, anfonwch lythyr yn egluro pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd, a CV byr yn nodi eich profiad gwaith/swyddi**. Dylai eich CV nodi enwau a chyfeiriadau dau berson y gellir cysylltu â hwy am dystiolaeth bellach. Os ydych chi mewn swydd ar hyn o bryd, dylai'ch cyflogwr presennol fod yn un o'r canolwyr. **Ni fyddwn yn cysylltu ag unrhyw ganolwyr heb eich caniatâd chi**.

Sylwer: nid ydym yn gallu noddi fisas gwaith, a bydd angen prawf bod gennych yr hawl i weithio yn y DU.

Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn **dydd Llun, 1 Rhagfyr 2025**, a'u hanfon at:

Menai Ll. Williams, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB. Ffôn: (01970) 629541, neu'n electronig at menai.williams@llyfrau.cymru

Cynhelir y cyfweliadau yn rhithiol ar **ddydd Llun, 8 Rhagfyr 2025**.

Tachwedd 2025